# Diweddariad ar Strategaeth Cysgu ar y Stryd Caerdydd

## Chwarter 2 2019/20

### Monitro Cysgu ar y Stryd

Cefnogwyd **46** o bobl a oedd yn cysgu ar y stryd i fynd i lety drwy gyfrwng ymyriadau amlasiantaethol.

Derbyniodd **21%** o'r cysgwyr stryd a oedd yn wybyddus i'r Gwasanaeth Allgymorth asesiadau digartrefedd.

Cafodd **81%** o gleientiaid ganlyniadau llwyddiannus drwy'r Gwasanaeth Ailgysylltu Digartrefedd.

**Anghenion Cymorth** (ym mis Medi 2019)

Nododd **73%** o bobl a oedd yn cysgu ar y stryd brif anghenion cymorth yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, **21%** ar gyfer iechyd meddwl a **6%** ar gyfer alcohol.

| Chwarter 2 2019/20 | Gorffennaf | Awst | Medi |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Cysgwyr Stryd (cyfartaledd dros 4 wythnos) | 69 | 84 | 87 |
| Cyfartaledd Chwarterol | 80 | | |
| Dim Cysylltiad Lleol (ar ddiwedd y mis) | 22 | 27 | 13 |
| AEE – Dim Budd-dal Tai (ar ddiwedd y mis) | 3 | 1 | 4 |

### Tîm Amlddisgyblaethol

Hyd yma, mae'r tîm amlddisgyblaethol wedi derbyn **298 o atgyfeiriadau**, gyda **270 o achosion wedi'u hagor** i weithwyr arbenigol. O'r **58** achos sydd wedi cau, mae **33 cleient (57%)** wedi sicrhau llety neu gadw eu llety presennol.

### Tai yn Gyntaf

Mae Tai yn Gyntaf yn cael llwyddiant o ran rhoi llety i gysgwyr ar y stryd ag anghenion cymorth cymhleth ac uchel, gan gynnwys y person a adawodd y carchar cyntaf i gael llety trwy'r cynllun. Ar ddiwedd chwarter 2 roedd cyfanswm o **21** tenantiaeth fyw ar draws y tri phroject (Cyngor Caerdydd, Byddin yr Iachawdwriaeth a Chyngor Caerdydd/Carchar Ei Mawrhydi Caerdydd), gyda **11** cleient arall yn cael cymorth cyn tenantiaeth. Ystyriwyd bod **91%** o gleientiaid Tai yn Gyntaf wedi torri cylch digartrefedd.

### Pebyll Canol y Ddinas

Mae ymgysylltu dyddiol â defnyddwyr pebyll gan y Gwasanaethau Allgymorth wedi parhau, sydd wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y pebyll yng nghanol y ddinas ers dechrau'r flwyddyn. Mae cyfarfodydd amlasiantaethol rheolaidd yn cael eu cynnal ynghylch pob unigolyn a chynlluniau gweithredu wedi'u teilwra yn cael eu creu. Gweler canlyniadau llety isod:

| Cefnogi Preswylwyr Pebyll i Gael Llety Mis Chwefror - Mis Medi 2019 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llety Dros Nos Brys | Hostel y Rheng Flaen | Llety â Chymorth | Dychwelyd i'w heiddo eu hunain | Gwasanaethau Adsefydlu | Project Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd | CYFANSWM |
| 19 | 4 | 1 | 6 | 1 | 1 | 32 |

HUGGARD, Helping The Homeless · thewallich atal digartrefedd • preventing homelessness · CARDIFF CAERDYDD · YMCA · THE SALVATION ARMY

## Project Menywod yn Nhŷ Nos

Mae project Tŷ Nos y Cyngor wedi cael llwyddiant sylweddol o ran symud pobl sydd wedi bod yn cysgu ar y stryd am amser hir i lety trwy ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnwys galluogi ffrindiau i symud i mewn gyda'i gilydd mewn grwpiau. Yn ddiweddar, mae uned 3 ystafell wely ychwanegol wedi'i nodi ar gyfer menywod, gan gynnig darpariaeth brys hunangynhwysol i fenywod yn unig mewn ymateb i angen a nodwyd. Disgwylir i'r eiddo fod yn barod i bobl fyw ynddo ym mis Ionawr. Ceir lle yno trwy atgyfeiriadau uniongyrchol gan y Gwasanaethau Allgymorth.

## Project 'Taclo Digartrefedd'

Mae'r project Taclo Digartrefedd a lansiwyd y chwarter hwn yn cynnig cyfle i bobl sy'n byw mewn hosteli neu sy'n ymwneud â gwasanaethau cysgu ar y stryd i gymryd rhan mewn sesiynau bocsio a ffitrwydd wythnosol.

Nod y rhaglen yw gwella iechyd meddwl a chorfforol cyfranogwyr, yn ogystal â gwella sgiliau bywyd trwy gael pryd maethlon ar ôl pob sesiwn. Y gobaith yw y bydd y project yn parhau i ymestyn a chynnig adnodd gwerthfawr i helpu i gynnal dulliau iach o fyw.

Dywed Rob Green, gweithiwr allweddol ar gyfer Gwasanaethau Hostel sy'n rhedeg y project, 'Mae llawer o bobl wedi dod atom na fyddech erioed yn eu disgwyl ac mae'r canlyniadau wedi bod yn anghredadwy'. Mae cyfranogwyr wedi magu hyder a chymhelliant, sydd wedi arwain at fwy o ymgysylltu â gwasanaethau. Mae rhai wedi symud ymlaen i gael profiad gwaith diogel a gwaith â thâl, neu wedi cael llety parhaol.

## Gweithgareddau Dargyfeiriol

Nod menter weithgareddau gwrthdyniadol Croeso Cynnes yw mynd i'r afael â'r cynnydd mewn diwylliannau stryd negyddol a gwella sgiliau a gallu pobl i symud i fyw'n annibynnol, trwy ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ac allbynnau therapiwtig a chreadigol.

Ers mis Chwefror 2019, mae bron i **1,000** o gyflwyniadau wedi'u gwneud mewn **130** o sesiynau bore coffi. Mae **353** cyflwyniad arall wedi'i wneud mewn **66** sesiynau gweithgareddau, gan gynnwys gweithdai celf, ffotograffiaeth a cherddoriaeth, gweithdai Cyngor ar Arian ac I Mewn I Waith a sesiynau chwaraeon. Mae cyfanswm o **292** unigolyn wedi'u cefnogi trwy'r cynllun, gan arwain at ddargyfeirio **1,930** o oriau i ffwrdd o ddiwylliannau stryd.

**Astudiaeth Achos**

Aeth Jon i'w fore coffi cyntaf ym mis Chwefror 2019 tra oedd yn cysgu ar stryd. Magwyd hyder ynddo drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau gwrthdyniadol gan ei helpu i greu amserlen strwythuredig i ymgysylltu â chymorth, cyfoedion a gwirfoddoli. O ganlyniad uniongyrchol cafodd Jon hyfforddiant a phrofiad gwaith fel barista.

Mae Jon bellach wedi'i leoli yn Llys Litchfield lle mae wedi gweithio'n agos gyda'i weithiwr cymorth i gael ei Dystysgrif Hylendid Bwyd. Yn dilyn y llwyddiant hwn, mae Jon wedi gwneud cais i wneud NVQ Lefel 2 mewn Arlwyo, i ddysgu sgiliau sydd eu hangen arno i ddilyn ei uchelgais i weithio fel cogydd.